


# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar

# Ysgol Gynradd Penparc

## Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2023

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae Ysgol Penparc yn ysgol ofalgar, hapus a chroesawgar. Mae staff, rhieni a'r disgyblion yn ymfalchïo yn eu hysgol ac maent yn teimlo'n gryf ei bod yn fraint cael bod yn aelod o'r gymuned ddysgu glós. Mae gan arweinwyr ddisgwyliadau uchel, yn enwedig o ran hybu lles a sicrhau bod disgyblion yn mwynhau eu hamser yn yr ysgol. Mae llawer o'r disgyblion yn frwdfrydig am eu gweithgareddau dysgu ac maent yn siarad am eu profiadau gyda chyffro.

Mae'r disgyblion yn ymdrin â'i gilydd ac oedolion gyda pharch a chwrteisi sy'n cefnogi'r rhan fwyaf i ymddwyn yn dda. Maent yn gwerthfawrogi bod staff yn ofalgar ohonynt a'u bod yn darparu cyfleoedd dysgu ysgogol ar eu cyfer. O ganlyniad, mae disgyblion yn awyddus i gyflawni'n dda mewn amgylchedd ddysgu gynhwysol.

Mae staff yn darparu cwricwlwm sy'n cynnig ystod dda o brofiadau diddorol ar draws y meysydd dysgu a phrofiad. Mae gan athrawon berthynas weithio fuddiol â'r disgyblion ac maent yn adnabod anghenion dysgu a phersonol bob un yn dda. O ganlyniad, mae'r staff cyfan yn darparu cymorth a chynhaliaeth bwrpasol er mwyn cefnogi'r disgyblion i wneud cynnydd.

Mae athrawon yn datblygu medrau disgyblion trwy holi treiddgar ac yn darparu cyfleoedd buddiol iddynt drafod eu dysgu. Gyda chefnogaeth athrawon, mae disgyblion yn dod yn fwyfwy annibynnol wrth lunio meini prawf llwyddiant ar gyfer eu tasgau. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn darparu adborth sy'n adnabod y camau nesaf yn nysgu'r disgyblion yn ddigon effeithiol bob tro. At ei gilydd, prin yw cyfleoedd i ddisgyblion wneud dewisiadau yn annibynnol am beth maent am ddysgu a sut i gyflwyno eu gwaith.

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol ble mae tegwch a llesiant ar gyfer pob disgybl yn flaenllaw. Mae agwedd gadarnhaol a brwdfrydedd heintus y pennaeth yn hybu cydweithio effeithiol ymysg arweinwyr, staff a chymuned ehangach yr ysgol. Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth briodol o gryfderau'r ysgol a meysydd sydd angen eu datblygu. Maent yn cael eu cefnogi gan dîm ymroddgar o lywodraethwyr sy'n rhannu'r weledigaeth, ac yn datblygu eu cyfrifoldebau i gefnogi a herio'r ysgol yn briodol.

# Argymhellion

**A1 Sicrhau bod adborth gan staff yn darparu'r camau nesaf yn nysgu'r disgyblion yn effeithiol**

**A2 Sicrhau cyfleoedd cyson i ddisgyblion wneud dewisiadau annibynnol am beth i ddysgu a sut i gyflwyno eu gwaith**

## Beth sy'n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Penparc |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ceredigion |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 94 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 79 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.0%) | 6.5% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 16.1%) | 20.3% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 49.4% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/01/2020 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/09/2014 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 20/03/2023 |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 25/05/2023

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.